Prifysgol Abertawe
Swansea University

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN

31 GORFFENNAF 2021



# ADRODDIAD CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Taliadau'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac aelodau eraill o'r uwch-staff

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau proses deg sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau a thelerau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach pan fo'n briodol. Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol a ddyfernir, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ymagwedd y Brifysgol at gydnabod perfformiad ar gyfer yr holl rolau sydd o fewn cwmpas ei gylch gorchwyl. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at wybodaeth feincnodi ar gyfer y sector a ddarperir gan Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion diweddaraf yr UCEA.

Mae'r egwyddorion allweddol sy'n llywio ymagwedd y Brifysgol at gydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i'r Brifysgol allu recriwtio a chadw arweinwyr academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol o safon
- Pennir targedau a chymhellion perfformiad priodol a chaiff canlyniadau eu monitro ar gyfer yr arweinwyr hyn er mwyn datblygu llwyddiant parhaus y Brifysgol.
- Mae dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar deilyngdod a pherfformiad.
- Pennir lefelau'r dyfarniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, yng nghyd-destun perfformiad cyffredinol y Brifysgol, ac mae'n ystyried data perthnasol y farchnad;
- Disgwylir i'r holl aelodau staff cymwys gyflwyno cais blynyddol i'w ystyried, i ategu data perfformiad sydd ar gael fel rhan o broses yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol. Mae llawer llai o uwch-arweinwyr Gwasanaethau Proffesiynol o fewn y cwmpas, felly cânt eu hystyried gan y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol a'u trafod wrth gymedroli cyn i argymhellion gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.
- Cyhoeddir y cyflog a'r manteision eraill a delir i'r Is-ganghellor, ynghyd â data dienw ynghylch cyflogau sy'n uwch na £100,000 yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a'r Datganiadau Ariannol;
- Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol awdurdod i bennu dyfarniadau y tu allan i'r cylch arferol mewn amgylchiadau eithriadol;
- Mae penderfyniadau'n amodol ar asesiad effaith cydraddoldeb.

## AELODAETH Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cadeirir y Pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor.

Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor.

Mae'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu'n cyflawni rôl Ysgrifennydd i'r Pwyllgor ond nid yw'n aelod.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cynghori'r Pwyllgor ar brosesau, er mwyn sicrhau tegwch gweithrediadol yn unol â Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (y CUC).

Ni fydd aelod staff yn bresennol pan drafodir cydnabyddiaeth ariannol yr aelod staff hwnnw neu pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ddyfarniad aelodau Uwch-dîm Arweinyddiaeth yr Is-ganghellor.

**Aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw:**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol: | Dr Angus Muirhead |
| Y Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor: | Mr Bleddyn Phillips |
| Y Dirprwy Ganghellor | Syr Roderick Evans |
| Aelod: | Ms Elin Rhys (Aelod Lleyg o'r Cyngor) |

Ehangwyd aelodaeth y Pwyllgor i 6 aelod lleyg fel y cytunodd y Cyngor ar 5 Gorffennaf 2021. Yn dilyn hynny, ymunodd yr Athro Kathryn Monk a'r Athro Edward David, sy'n aelodau lleyg o'r cyngor, â'r Pwyllgor.

## CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021

Penderfynodd Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol beidio â chynyddu cyflogau yn ôl perfformiad yn ystod cylch cydnabyddiaeth ariannol 2021 ar gyfer aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Cyfarwyddwyr ac Athrawon. Cefnogwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Cyngor. At hynny, penderfynodd y Brifysgol beidio â thalu cyflogau yn ôl perfformiad yn ystod 2021/22.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, defnyddiwyd y ffactorau canlynol wrth ystyried cynigion gwobrwyo, ond nid dyma restr holl gynhwysfawr:

a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis:

- Ymchwil;
- Addysgu;
- Arloesi ac Ymgysylltu;
- Arweinyddiaeth a rheolaeth;
- Partneriaethau a chysylltiadau allanol, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol;
- Mentrau a phrosiectau mawr;

b) maint a chymhlethdod y sefydliad;
c) natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw;
d) amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu; a'r
e) ffaith bod cyflogau rhai aelodau staff yn cael eu pennu gan y GIG, nid gan y Brifysgol.

Byddai data sy'n cefnogi'r dangosyddion hyn wedi dod o

a) Arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA);
b) dadansoddiad o ddosbarthiadau cyflog.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Brifysgol yn penderfynu ar becyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan ystyried lled ei gyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol a'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Brifysgol. Hefyd, bydd gwaith meincnodi yn unol â phrifysgolion cymharol.

Nid yw cyflog yr Is-ganghellor wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

## ENILLION YR IS-GANGHELLOR

Enillion yr Is-ganghellor ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 a 31 Gorffennaf 2020 *(gweler hefyd Nodyn 7 adran y datganiadau ariannol o Adolygiad Ariannol 2020-21)*:

| | 2020/21 £000 | 2020/21 £000 | 2019/20 £000 | 2019/20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflog** | | 293 | | 293 |
| Lwfans llety | | 10 | | |
| **Buddion mewn nwyddau trethadwy:** | | | | |
| *Llety a chostau cysylltiedig* | 20 | | 19 | |
| *Car y Brifysgol a chostau cysylltiedig* | 0 | | 24 | |
| *Manteision Eraill* | 5 | 25 | 9 | 52 |
| **Cyfanswm** | | **328** | | **345** |

## CYMHAREB TÂL YR IS-GANGHELLOR I'R TÂL CANOLRIFOL YW:

| 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|
| 8.6:1 | 8.3:1 |

Ar gyfer cymhareb 2020/21, ychwanegwyd y lwfans Llety at gyflog yr Is-ganghellor.

Gyda chefnogaeth y Cyngor, cymerodd yr Is-ganghellor rôl Cadeirydd JISC (a adwaenid yn flaenorol fel y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth) ar **21 Mai 2021** ac mae'n derfyn cydnabyddiaeth ariannol flynyddol sy'n werth £15,000.

Yn 2021, roedd 59 aelod o staff â chyflog sylfaenol gwerth mwy na £100,000 y flwyddyn (2020: 61).

## CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020-21

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol bedair gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Gweler y manylion isod:

23 Tachwedd 2020;

10 Chwefror 2021;

17 Mai 2021;

22 Mehefin 2021.

Roedd y materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn yn cynnwys:

- Ystyried cynigion cydnabyddiaeth ariannol arfaethedig;
- Trefniadau diswyddo'r Brifysgol;
- Addasiadau at y broses cydnabyddiaeth ariannol o ganlyniad i'r pandemig;
- Aelodaeth y Pwyllgor;
- Amserlen cyfarfodydd y Pwyllgor.